

Digimap for Schools

Dilyniant mewn Mapio

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Dilyniant mewn Mapio

Cyfnod	Cyd-destun
Blynyddoedd Cynradd 1 – 6	Mae'r fframwaith hwn yn cynnig dilyniant o sgiliau a gwybodaeth mapio ar gyfer dysgwyr 5-11 oed. Defnyddiwch hwn i helpu i osod cynllunio'n briodol a helpu i asesu dysgu.

Dilyniant mewn defnyddio a gwneud mapiau	
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	<p>CA1</p> <ul style="list-style-type: none">Defnyddio mapiau'r byd, atlasau a globau i ddod o hyd i'r Deyrnas Unedig a'i gwledydd.Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol (er enghraifft, yn agos ac yn bell; i'r chwith ac i'r dde), disgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.Defnyddio awyrluniau a chynllunio persbectifau i adnabod tirnodau a nodweddion dynol a ffisegol sylfaenol; dyfeisio map syml; a defnyddio a ffurfio symbolau syml mewn allwedd.Defnyddio gwaith maes a sgiliau goruchwyllo i astudio daeryddiaeth eu hysgol a'i thiroedd a nodweddion dynol a ffisegol allweddol ei hamgylchedd cyfagos. <p>CA2</p> <ul style="list-style-type: none">Defnyddio mapiau, atlasau, globau a mapio digidol/cyfrifiadurol i ddod o hyd i wledydd a disgrifio nodweddion a astudiwyd.Defnyddio wyth pwynt cwmpawd, cyfeirnodau grid pedwar ffigur a chwe ffigur, symbolau ac allwedd (gan gynnwys defnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans) i feithrin eu gwybodaeth am y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach.Defnyddio gwaith maes i oruchwyllo, mesur, cofnodi a chyflwyno'r nodweddion dynol a ffisegol yn yr ardal leol gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys llinfapiau, cynlluniau a graffiau, a thechnolegau digidol.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	<p>Y Cyfnod Sylfaen: gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</p> <ul style="list-style-type: none">Trwy feithrin sgiliau cofnodi blaenorol, dylai plant symud ymlaen at gynhyrchu eu mapiau eu hunain, a defnyddio mapiau a chynlluniau graddfa fawr.Defnyddio a gwneud mapiau syml, i ddarganfod ble mae lleoedd a sut mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

	<p>(Dolenni i Ddatblygiad Mathemategol)</p> <ul style="list-style-type: none">Llunio cynlluniau a mapiau o'r lleoliad/amgylchedd yr ysgol a'r amgylchedd lleol, i atgyfnerthu datblygu iaith fathemategol safle. <p>CA2</p> <ul style="list-style-type: none">Amlygu a dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau, <i>er enghraifft, defnyddio cyfesurynnau a chyfeiriadau pedwar ffigur.</i>Dilyn cyfeiriadau, amcangyfrif a chyfrif pellteroedd, <i>er enghraifft, dilyn llwybrau ar fap ac ar y tir, cyfrifo pellteroedd map i'r tir.</i>Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno, <i>er enghraifft, tynnu llinfapiau gan ddefnyddio symbolau ac allwedd. Dehongli mapiau a lluniau, gan ddefnyddio delweddau arosgo, awyrluniau a delweddau lloeren.</i>Amlygu a disgrifio patrymau gofodol (dosbarthiadau) lleoedd ac amgylcheddau, a sut maen nhw wedi'u cysylltu, <i>er enghraifft, llinell o drefnu mewn dyffryn, patrwm ardaloedd wedi'u heffeithio gan tswnami.</i>
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	<ul style="list-style-type: none">Ar ôl archwilio tirwedd fy ardal leol, gallaf ddisgrifio'r ffyrdd amrywiol y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. SOC 1–13a.Trwy weithgareddau yn fy ardal leol, rwyf wedi datblygu fy map meddwl ac ymdeimlad o le. Gallaf greu a defnyddio mapiau o'r ardal. SOC 1–14a.Gallaf esbonio sut mae'r amgylchedd ffisegol yn dylanwadu ar y ffyrdd y mae pobl yn defnyddio tir trwy gymharu fy ardal leol ag ardal gyferbyniol. SOC 2-13a.Trwy ehangu fy map meddwl ac ymdeimlad o le, gallaf ddehongli gwybodaeth o fathau gwahanol o fapiau ac rwy'n dechrau dod o hyd i nodweddion allweddol yn yr Alban, y DU, Ewrop a'r byd ehangach. SOC 2–14a.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Digimap for Schools – map dilyniant i ddangos sut gallech ddatblygu sgiliau mapio disgyblion Cynradd

	Defnyddio a dehongli	Lleoliad a chyfeiriad	Tynnu llun	Symbolau	Persbectif a graddfa	Gwneud map digidol
Blwyddyn 1 a 2	<p>Gallaf ddod o hyd i wybodaeth ar awyrluniau. Rwy'n gwybod bod mapiau'n rhoi gwybodaeth am y byd (ble a beth?). Gallaf ddilyn llwybr ar fap parod. Gallaf adnabod nodweddion syml ar fap, fel adeiladau, ffyrdd a chaeau. Rwy'n adnabod bod angen teitl ar fapiau. Gallaf ddefnyddio mapiau i siarad am fywyd bob dydd, er enghraifft, ble rwy'n byw, y daith i'r ysgol, ble mae lleoedd mewn ardal. Gallaf ddechrau esbonio pam mae lleoedd ble maen nhw.</p>	<p>Rwy'n dechrau defnyddio geirfa gyfeiriadol. Rwy'n gallu dweud pa gyfeiriad yw gogledd (N), de (S), dwyrain (E), gorllewin (W), er enghraifft, gan ddefnyddio cwmpawd yn y cae chwarae, rwy'n gwybod pa gyfeiriad yw N ar fap yr Arolwg Ordnans.</p>	<p>Gallaf dynnu llun map syml (ar gyfer lle gwirioneddol neu ddychmygol), er enghraifft, mapiau llawrydd o erddi, lleoedd dyfriog, mapiau llwybrau, lleoedd mewn straeon.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio symbolau ar fapiau (rhai fy hun a rhai y cytunir arnynt fel dosbarth). Rwy'n gwybod bod symbolau yn golygu rhywbeth ar fapiau. Gallaf ddod o hyd i symbol penodol yr Arolwg Ordnans ar fap gyda chymorth. Rwy'n dechrau sylweddoli pam mae angen allwedd ar fapiau.</p>	<p>Gallaf edrych ar wrthrychau a gwneud cynllun, er enghraifft ar ddesg, ffenestr uchel i gae chwarae. Gallaf dynnu llun gwrthrychau i raddfa (er enghraifft, ar fwrdd neu hambwrdd gan ddefnyddio papur sgwariau, 1:1 yn gyntaf, yna 1:2 ac yn y blaen). Gallaf ddefnyddio awyrluniau fertigol ar raddfa fawr. Rwy'n gwybod pan fyddwch yn 'closio' byddwch yn gweld ardal lai yn fanylach.</p>	<p>Gallaf ddod o hyd i leoedd gan ddefnyddio cod post neu chwilio enw syml. Gallaf ychwanegu gwybodaeth syml at fapiau, er enghraifft, labeli a marchwyr. Gallaf dynnu llinell o gwmpas siapiau syml ac esbonio beth ydyn nhw ar fap, er enghraifft, tai. Gallaf ddefnyddio'r offeryn mesur gyda chymorth, i ddangos pellter, er enghraifft, o fy nhŷ i'r ysgol, i'r siopau. Gallaf glosio a llacio o fap. Gallaf dynnu llun llwybr syml. Gallaf amlygu ardaloedd. Gallaf ychwanegu delwedd ar fap.</p>
	<p>Gweithio'n hyderus gyda: mapiau stryd graddfa fawr a mapiau'r Arolwg Ordnans graddfa fawr (1:1250. 1:2500), awyrluniau, gemau gyda mapiau a globau. Profiad o: amrywiaeth o fapiau gwahanol, er enghraifft, pamffled i dwristiaid, mapiau papur, mapiau llyfrau straeon, mapiau digidol yr Arolwg Ordnans ar raddfeydd gwahanol, a globau ac atlasau. Cyflwyno: gridiau syml, pedwar pwynt prifol, offer mapio digidol sylfaenol, swyddogaeth closio mapiau digidol. Cyd-destun: canolbwyntio ar raddfa leol – gartref, ysgol, cymdogaeth, bywyd bob dydd (eu bywyd eu hunain a rhai pobl eraill), gweithio ar dir yr ysgol; graddfa fyd-eang – mapiau o'r byd, globau a thrwy straeon.</p>	<p>Gweithgareddau <i>Digimap For Schools</i> Awgrymedig (*CA 1-2) Llythyr i'n hysgol Ble ydw i'n byw? Sut i fynd i dŷ nain yn ddiogel? Beth yw'r ffordd gyflymaf i gyrraedd yr ysgol? Fy sbectol Daeryddiaeth Pwy sy'n mynd i'r ysgol mewn cwch?*</p>				

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

	Defnyddio a dehongli	Lleoliad a chyfeiriad	Tynnu llun	Symbolau	Persbectif a graddfa	Gwneud map digidol
Blwyddyn 3 a 4	<p>Gallaf ddefnyddio atlasau, mapiau a globau. Gallaf ddefnyddio mapiau graddfa fawr y tu allan. Gallaf ddefnyddio mapiau ar fwy nag un raddfa. Gallaf wneud a defnyddio mapiau llwybrau syml. Gallaf ddod o hyd i luniau o nodweddion ar fapiau. Gallaf ddefnyddio lluniau arosgo ac awyrluniau. Gallaf adnabod rhai patrymau ar fapiau a dechrau esbonio beth maen nhw'n ei ddangos. Gallaf roi teitl i fapiau i ddangos eu diben. Gallaf ddefnyddio mapiau thematig. Gallaf esbonio sut beth yw lleoedd gan ddefnyddio mapiau ar raddfa leol. Rwy'n adnabod bod cyfuchliniau yn dangos uchder a goledd.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio grisiau syml. Gallaf roi cyfarwyddiadau cyfeiriad hyd at 8 pwynt prifol. Gallaf ddefnyddio cyfesurynnau 4 ffigur i ddod o hyd i nodweddion. Rwy'n gwybod y gall Cyfeiriadau Grid 6 ffigur eich helpu i ddod o hyd i le yn fwy cywir na chyfesurynnau 4 ffigur.</p>	<p>Gallaf wneud map o lwybr byr gyda nodweddion yn y drefn gywir. Gallaf wneud map o ardal fach gyda nodweddion yn y lleoedd cywir.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio golygon cynlluniau yn rheolaidd. Gallaf roi allwedd ar fapiau gan ddefnyddio symbolau safonol. Gallaf ddefnyddio rhai symbolau arddull yr Arolwg Ordnans.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio mapiau ac awyrluniau i'm helpu i siarad am, er enghraifft, golygfeydd o leoedd uchel. Gallaf wneud cynllun graddfa syml o ystafell gyda chyfanrifau, er enghraifft, <i>1 cm sgwâr = 1 teilsen sgwâr ar y llawr, sef 1cm² = 1m².</i> Gallaf ddefnyddio'r bar graddfa i amcangyfrif pellter. Gallaf ddefnyddio'r bar graddfa i gyfrifo rhai pellteroedd. Gallaf gysylltu mesuriadau ar fapiau gyda'r awyr agored (gan ddefnyddio camau neu dâp).</p>	<p>Gallaf ddefnyddio'r swyddogaeth closio i ddod o hyd i leoedd. Gallaf ddefnyddio'r swyddogaeth closio i archwilio lleoedd ar raddfeydd gwahanol. Gallaf ychwanegu amrywiaeth o labeli anodi a thestun i'm helpu i esbonio nodweddion a lleoedd. Gallaf amlygu ardal ar fap a'i fesur gan ddefnyddio'r Offeryn Mesur Ardal. Gallaf ddefnyddio cyfeiriadau grid yn y swyddogaeth chwilio. Gallaf ddefnyddio'r offeryn cyfeirnod grid i gofnodi lleoliad. Gallaf amlygu ardaloedd o fewn radiws penodol. Gallaf ychwanegu lluniau at leoliadau penodol.</p>
	<p>Gweithio'n hyderus gyda: mapiau stryd graddfa fawr a mapiau'r Arolwg Ordnans graddfa fawr (1:1250, 1:2500), awyrluniau, golygfeydd arosgo a llygad aderyn, gemau gyda mapiau a globau, mapiau'r Arolwg Ordnans 1:1250, 1:2500 ac 1:10 000, cyfesurynnau 4 ffigur. Profiad o: amrywiaeth o fapiau gwahanol, er enghraifft, pamffled i dwristiaid, mapiau papur a digidol, mapiau llyfrau straeon, atlasau, mapiau papur a digidol yr Arolwg Ordnans ar raddfeydd gwahanol, cyfesurynnau 6 ffigur. Cyflwyno: beth yw ystyr Cyfeiriadau Grid 6 ffigur, 8 pwynt prifol, mwy o annibyniaeth o ran defnyddio offer mapio digidol. Cyd-destun: amrywiaeth o leoedd yn yr ardal ehangach ac mewn ardaloedd cyferbyniol, gwaith maes yn yr ardal ehangach.</p>	<p>Gweithgareddau <i>Digimap For Schools</i> Awgrymedig Helfa Drysor Ditectifs Lluniau Mapiau Creadigol Patrymau o ddefnydd tir Hedfan yn Uchel: Eryrod y Môr Teithiau ar y Teifi Blas yr Alban Olion Bysedd Tirwedd</p>				

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

	Defnyddio a dehongli	Lleoliad a chyfeiriad	Tynnu llun	Symbolau	Persbectif a graddfa	Gwneud map digidol
Blwyddyn 5 a 6	<p>Gallaf gysylltu mapiau gyda'i gilydd ac i awyrluniau fertigol. Gallaf ddilyn llwybrau ar fapiau a dweud beth a welir. Gallaf ddefnyddio mynegai a thudalen cynnwys atlas. Gallaf ddefnyddio mapiau thematig ar ddibenion arbennig. Rwy'n gwybod bod diben, graddfa, symbolau ac arddull yn gysylltiedig. Gallaf werthfawrogi estyniadau mapiau gwahanol. Gallaf ddehongli mapiau dosbarthu a defnyddio mapiau thematig er gwybodaeth. Gallaf ddilyn llwybr ar fap 1:50,000 yr Arolwg Ordnans; gallaf ddisgrifio a dehongli nodweddion tirwedd.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio cyfesurynnau 4 a 6 ffigur i ddod o hyd i nodweddion. Gallaf roi cyfeiriadau a chyfarwyddiadau i 8 pwynt prifol. Gallaf alinio map gyda llwybr. Gallaf ddefnyddio hydred a lledred ar atlas neu glôb.</p>	<p>Gallaf wneud llinfapiau o ardal gan ddefnyddio symbolau ac allwedd. Gallaf wneud cynllun, er enghraifft, gardd, parc chwarae; gyda graddfa. Gallaf gynllunio mapiau o ddisgrifiadau. Gallaf dynnu mapiau thematig, er enghraifft, lleoedd lleol agored. Gallaf dynnu cynlluniau i raddfa.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio symbolau cytûn a symbolau'r Arolwg Ordnans. Rwy'n gwerthfawrogi na all mapiau ddangos popeth. Gallaf ddefnyddio symbolau safonol. Rwy'n gwybod beth yw symbolau 1:50.000 a symbolau atlasau.</p>	<p>Gallaf ddefnyddio amrywiaeth o safbwyntiau hyd at loeren. Gallaf ddefnyddio modelau a mapiau i siarad am gyfuchliniau a goledd. Gallaf ddefnyddio'r bar graddfa ar bob map. Gallaf ddefnyddio graddfa linellol o fesur afonydd. Gallaf ddisgrifio uchder a goledd gan ddefnyddio mapiau, gwaith maes a lluniau. Gallaf ddarllen a chymharu graddfeydd mapiau. Gallaf dynnu cynlluniau mesuredig, er enghraifft, o ddata maes.</p>	<p>Gallaf ddod o hyd i gyfeiriadau grid 6 ffigur a gwirio gan ddefnyddio'r Offeryn Cyfeirnod Grid. Gallaf gyfuno marcwyr ardal a phwyntiau i egluro thema. Gallaf ddefnyddio mapiau ar raddfeydd gwahanol i egluro stori neu fater. Gallaf ddefnyddio mapiau i ymchwilio i wybodaeth nodweddion. Gallaf ddefnyddio offer mesur llinellol ac ardal yn gywir.</p>
Blwyddyn 6 Mwy Galluog	<p>Gweithio'n hyderus gyda: mapiau stryd graddfa fawr a mapiau'r Arolwg Ordnans graddfa fawr (1:1250, 1:2500), awyrluniau, golygfeydd arosog a llygad aderyn, gemau gyda mapiau a globau, mapiau'r Arolwg Ordnans 1:1250, 1:2500, 1:10 000, 1:25 000, 1:50 000. Cyfesurynnau 4 a 6 ffigur.</p> <p>Profiad o: amrywiaeth o fapiau gwahanol, er enghraifft, pamffled i dwristiaid, mapiau papur a digidol, mapiau llyfrau straeon, atlasau, mapiau papur a digidol yr Arolwg Ordnans ar raddfeydd gwahanol, cyfesurynnau 6 ffigur.</p> <p>Cyflwyno: beth yw ystyr Cyfeiriadau Grid 6 ffigur, a sut i'w cyfrifo nhw.</p> <p>Cyd-destun: amrywiaeth o leoedd ar raddfeydd gwahanol a gyda themâu gwahanol, gwaith maes yn yr ardal ehangach a phell.</p>			<p>Gweithgareddau <i>Digimap For Schools</i> Awgrymedig</p> <p>Mapiau Ffantasi Rhybudd Tywydd! Dirgelwch Arfordirol Barddoniaeth Tirwedd Goleudy ar Werth Fy Llwybr Twristiaeth Gorau Ôl-troed Sbwrri! Prydain Fawr Eithafol Ditectifs Mapiau Achub mewn Argyfwng!</p>		

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Gweler hefyd *Mapping our Globe* (Mapio ein Glôb) <http://www.geography.org.uk/resources/mappingourglobe/#top>
Think Pieces and Resources Making Maps (Deunyddiau ac Adnoddau Meddwl; Gwneud Mapiau)
<http://www.geography.org.uk/gtip/thinkpieces/makingmaps/#786>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

